



Ysgol Pentreuchaf

115. Polisi Monitro

Nod

Ceisio sicrhau dilyniant, datblygiad a chysondeb o fewn yr holl agweddau cwricwlaidd a rheolaethol drwy'r ysgol. Sicrhau ein bod yn edrych yn ofalus ar safonau ac yn gwneud pob dim o fewn ein gallu i godi safonau o fewn pob maes.

Amcanion

Sefydlu a gweithredu trefn o arfarnu effeithiolrwydd cynllunio a gweithrediad y rhaglen waith, datblygu sgiliau dysgu ac addysgu a rheolaeth yr ysgol. Trwy arsylwi gwersi, craffu ar waith plant, trafod gyda hwy a cheisio canolbwyntio ar safonau yn ôl oedran a gallu'r plant dan sylw, wella perfformiad a chodi safonau pawb, yn blant a staff.

Canllawiau

1. Mae cyd-drafod rhwng staff yn holl-bwysig gan ein bod yn rhannu Cydlynwyr. Mae angen trefnu amserlen a dyddiadau/amseroedd a.y.y.b.
2. Gosod meini prawf i benderfynu pa agweddau yr edrychir arnynt yn benodol a blaenoriaethu ar ddiwedd y broses.
3. Y Cydlynnydd fydd yn gyfrifol am fonitro ei bynciau/phynciau penodol, arwain trafodaethau ynglyn â safonau gwaith plant a.y.y.b.
4. Mae'n bosibl edrych ar lyfrau plant, trafod samplau gwaith, ymweld â dosbarthiadau, arsylwi'r addysgu neu newid dosbarthiadau am gyfnodau penodol.
5. Edrych ar gynlluniau gwaith a chynlluniau tymor byr.
6. Derbyn sylwadau ffurfiol (holiaduron, Cyngor Ysgol, targedau personol a.y.y.b.) ac anffurfiol y plant.
7. Dylai'r broses fonitro wella perfformiad athrawon, arwain at gyrsiau a.y.y.b.
8. Talu sylw i agweddau eraill megis Sgiliau, Asesu ar gyfer Dysgu, Medrau Meddwl, ABaCh, Anghenion Addysgu Ychwanegol, Medrau ac agweddau rheolaethol, nid y cwricwlaidd yn unig.
9. Byddwn yn dilyn trefn Cynllun Monitro yr ysgol ac yn defnyddio taflenni Meini Prawf Monitro.
10. Nid oes pwrpas i fonitro heb nodi gwendidau a'r hyn sydd angen ei wneud i wella'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn cael ei drafod o dan arweiniad y Cydlynnydd ai 'fonitro' a'i fwydo i'r Cynllun Datblygu Ysgol os bydd y staff yn teimlo y byddai'n fuddiol.
11. Mae angen cyflwyno adroddiad i'r Cyrff Llywodraethol yn dymhorol.

Casgliad

Mae angen datblygu ffordd o weithio sydd yn rhoi cefnogaeth i ddatblygu agweddau rheolaethol a chwricwlaidd ysgol, i godi safonau ac i ddatblygu staff gan sicrhau ei fod yn broses barhaus.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____